

Gweithgaredd 3: Archwilio Dynameg

Bydd y gerddorfa'n chwarae **A Night on the Bare Mountain gan Mussorgsky**.

Gwrandewch am y cyfarwyddiadau yn ystod y wers. Tra mae'r gerddorfa'n chwarae, gwrandewch yn ofalus ar yr wyth bar cyntaf.

Pa ddynameg allwch chi ei chlywed pan mae'r gerddoriaeth yn dechrau?

- a) Tawel iawn – mynd yn gryfach – yna tawel – yna cryf – yna tawel eto
- b) Cryf – mynd yn gryfach – yna tawelu
- c) Cryf iawn – yna tawelu

Yn ystod y wers, byddwn yn eich cyflwyno i farciau dynameg syml, a sut mae gwahanol fathau o ddynameg yn gallu dylanwadu ar deimlad a naws darn o gerddoriaeth.

Dyma dabl defnyddiol sy'n dangos marciau dynameg a beth maent yn ei olygu:

SYMBOL	GAIR	YSTYR
<i>f</i>	forte	cryf
<i>p</i>	piano	tawel
<i>ff</i>	fortissimo	cryf iawn
<i>pp</i>	pianissimo	tawel iawn
<i>mf</i>	mezzo-forte	eithaf cryf
<i>mp</i>	mezzo-piano	eithaf tawel
	crescendo	mynd yn gryfach
	diminuendo neu decrescendo	mynd yn dawelach

Gweithgaredd estynedig ar ôl y wers:

Nawr eich bod yn gwybod beth yw ystyr pob marc dynameg, ychwanegwch nhw at eich cyfansoddiad. Meddyliwch am deimlad eich cyfansoddiad a pha ddynameg fyddai'n helpu i gyfleu'r naws. Gallwch roi cynnig ar ysgrifennu eich cyfansoddiad llawn isod:

A chofiwch, does dim rhaid i chi ddefnyddio nodau cerddorol os mai dechreuwr ydych chi. Ceisiwch ddefnyddio geiriau i gyfleu'r rhythm, ac ysgrifennu llythrennau'r nodau ar gyfer yr alaw.